

Prawf Llafar HPCS7006 Oral Test – 2003830 Catherine Solomatin (70%)

Rhan 1:

Prynhawn da.

Beth ydy'ch enw?

Sut dych chi heddiw?

Diolch.

Darllenwch y darn isod yn uchel os gwelwch yn dda: Read the following piece aloud please:

Mae'r byd wedi newid o achos y coronafeirws. Ychydig o bobl sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus nawr, ac mae llawer yn gweithio gartref. Mae'r tafarnau ar agor ond does neb yn cael eistedd ynddyn nhw, ac mae plant yn gorfod gwisgo mygydau yn yr ysgolion. Er bod chwaraeon yn cael eu chwarae, does dim torfeydd i'w gweld nhw!

O leiaf roedd y tywydd yn dda yn ddiweddar. Roedd mis Ebrill yn ddigon heulog, ond mae'r dyddiau diwethaf wedi bod yn ddiflas. Ddwy flynedd yn ôl, roedd popeth yn wahanol, doedd neb yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd. Roedd pawb yn mynd i'r gwaith fel arfer ac yn teithio dros y byd i gyd ar eu gwyliau.

Penderfynodd y llywodraeth ddod fod pobl o fwy nag un tŷ yn cael cwrdd eto. Dwedon nhw fod y sefyllfa yn newid yn raddol a bod llai o achosion wedi cael eu nodi'n ddiweddar. Cafodd y newyddion ei gyhoeddi ar y teledu, ar y radio ac ar y rhyngwrdd. Gyda bach o lwc, mae pethau yn mynd i wella eto yn y dyfodol agos!

Rhan 2:

Ar ôl clywed pob cwestiwn, darllenwch bob ateb: After listening to each question, read aloud each answer:

Cwestiwn: Ble mae Siôn a Siân yn byw?

Ateb: Mae Siôn a Siân yn byw yn Llambled.

Cwestiwn: Ers pryd maen nhw'n byw yno?

Ateb: Maen nhw'n byw yno ers tair blynedd ac yn hoffi'r dref yn fawr iawn.

Cwestiwn: Ble cafodd Siôn a Siân eu geni?

Ateb: Cafodd Siôn ei eni yng Nghaerdydd, ond dydy Siân ddim yn dod o'r de. Cafodd hi ei geni ym Mangor.

Cwestiwn: Oes plant gyda nhw?

Ateb: Does dim plant gyda nhw eto ond mae ci gyda nhw. Enw'r ci ydy Gelert.

Cwestiwn: Beth maen nhw'n hoffi wneud yn eu hamser hamdden?

Ateb: Yn ei amser hamdden mae Siôn yn mwynhau chwarae pêl-droed ond mae'n gas gyda Siân bêl-droed, mae hi'n hoffi tennis.

Commented [AC1]: Mae Kate yn ymateb yn naturiol i'r cwestiynau cyntaf. Mae hi'n ynganu'n dda, yn enwedig o gofio ei bod yn dod o Canada.

Commented [AC2]: Mae Kate ychydig yn betrusgar ar brydiau wrth ddarllen y paragraff hwn ac yn wynebu anawsterau amlwg gyda rhai o'r geiriau anghyfarwydd. Er hyn, mae hi'n defnyddio'r wybodaeth mae hi wedi'i dysgu i ddod mor agos ag y gall at yr ynganiad cywir ac mae'r cynnwys yn ddealladwy i wrandawyr.

Commented [AC3]: Gellir clywed ychydig o enghreifftiau o gam-ynganu eto ond hefyd clywir ymdrech da i oresgyn hyn drwy ddefnyddio'r wybodaeth sy ganddi o'r wyddor Gymraeg mewn ffordd resymegol.

Commented [AC4]: Yr un patrwm sydd i'w weld yma ag sydd yn y paragraffau blaenorol. Heb y geiriau o'u blaen, byddai'n anodd i wrandawyr ddeall *ambell i air*, ond mae'n ddealladwy ar y cyfan.

Cwestiwn: Fel arfer, ble maen nhw'n mynd ar eu gwyliau?

Ateb: Fel arfer, maen nhw'n mynd i Ffrainc.

Cwestiwn: Aethon nhw i Ffrainc y llynedd?

Ateb: Naddo, aethon nhw ddim i Ffrainc. Doedden nhw ddim yn cael gwneud hynny y llynedd wrth gwrs, felly penderfynon nhw aros yng Nghymru. Doedd dim digon o arian gyda nhw i fynd dramor beth bynnag.

Cwestiwn: Ble yng Nghymru aethon nhw?

Ateb: Yn y gwanwyn, aethon nhw i Eryri. Penderfynon nhw wneud hyn er mwyn i Siân gael ymweld â'i theulu. Hefyd, dringon nhw'r mynyddoedd uchaf yng Nghymru, gan gynnwys Yr Wyddfa. Ymwelon nhw â Chastell Caernarfon yn ogystal.

Cwestiwn: Beth am yr haf?

Ateb: Yn yr haf, aethon nhw i ardal o'r enw Mynyddoedd Cambria. Yma, gwelon nhw raeadr Pontarfynach ynghyd ag argaeau Cwm Elan. Ardal dawel yng Ngheredigion a Phowys yw Mynyddoedd Cambria. Does dim llawer o bobl yn byw yno. Er gwaetha hyn, cawson nhw amser da. Maen nhw wedi trefnu mynd yn ôl eto y flwyddyn **nesa!**

Rhan 3:

Sgwrs wedi ei seilio ar y cwestiynau canlynol (mewn unrhyw drefn) a'r atebion a roddir iddynt:

Conversation based on the following questions (in any order) and the answers given to them:

Ble dych chi'n byw?

Ydych chi'n hoffi byw yno?

Pa fath o le ydy.....?

Fel arfer, sut mae'r tywydd yn.....?

Sut mae'r tywydd heddiw yn.....?

Ble cawsoch chi eich geni?

Beth dych chi'n hoffi wneud yn eich amser hamdden?

Pa mor aml dych chi'n.....?

Fel arfer, ble dych chi'n mynd i siopa?

Oes car gyda chi?

Oes teulu gyda chi?

Beth ydy enw eich?

Pa fath o berson ydy.....?

Beth wnaethoch chi ar y penwythnos?

Commented [AC5]: Darllenwyd Rhan 2 yn well ar y cyfan er bod ambell i broblem ynganu wedi codi gyda'r treigladr trwynol, e.e., *yng Nghaerdydd*. Mae'r gair *gwneud* yn creu anawsterau hefyd, yn ogystal â'r ddeusain wy. Tua diwedd y paragraff, mae safon yr ynganiad yn llithro ychydig, ond mae'n ymdrech digon dewr.

Commented [AC6]: Ymdrech da i greu sgwrs ac ymateb mewn ffordd naturiol i'r cwestiynau. Er bod cwestiynau enghreifftiol wedi eu cynnwys, nid oedd y sgwrs yn dilyn "script" ac felly roedd angen i Kate feddwl yn y fan a'r lle am atebion i rai cwestiynau annisgwyl. Er gwaetha mynd ar goll tua'r diwedd, rhoddodd nifer o frawddegau gwreiddiol at ei gilydd drwy ddefnyddio gwybodaeth dda o ramadeg y Gymraeg.

Beth wnaethoch chi neithiwr?

Beth wnaeth neithiwr?

Fel arfer, ble dych chi'n hoffi mynd ar eich gwyliau?

Aethoch chi ar wyliau llynedd?

Ydych chi'n hoffi dysgu Cymraeg?

Commented [AC7]: Tynnwyd sylw uchod at rai o'r gwallau a glywyd yn ystod y sgwrs, ond at ei gilydd cynhaliwyd sgwrs ddiddorol sy'n haeddu marc ar y ffin rhwng y 60au a'r 70au.